# Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Bodedern a gynhaliwyd ym Mro'r Ysgol am 7:00pm 23 Hydref 2023

## 1. Croeso a derbyn ymddiheuriadau

Yn absenoldeb y clerc Mrs Rhian Richards gytunodd yr is-gadeirydd Dr Edward Jones i gymryd y cofnodion. Gafodd y cyfarfod ei chadeirio gan Miss Jane Ann Roberts.

**<u>Gweithred #1</u> - Gyrru cerdyn o gydymdeimlad i Ms Joanne Ferry.**

## 2. Presennol / Ymddiheuriadau

Presennol: Jane Ann Roberts (JAR, Cadeirydd), Edward Jones (EJ, cofnodion), Victor Owen (VO), Ken Taylor (KT), Richard Jones (RJ), Osian Jones (OJ), Linda Jones (LJ), Bethan Hughes (BH), Ann Postle (AP).

Ymddiheuriadau: Joanne Ferry a Rhian Richards

## 3. Datgan diddordeb

KT – Eitem 5

## 4. Darllen a chadarnhau'r cofnodion 25 Medi 2023

Cadarnhaodd y Cadeirydd bod yr holl weithredai a chodwyd yn y cyfarfod diwethaf wedi cael ei gweithredu. Yr unig eithriad oedd nad oedd enwau tai lleol, oedd wedi eu hail-enwi o'r Gymraeg i'r Saesneg, wedi ei yrru i Mr Rhun ap Iorwerth AS (Ynys Môn).

**<u>Gweithred #2</u> - Yr aelodau i anfon e-bost i'r Cadeirydd efo enwau tai Cymraeg sydd wedi eu hail-enwi i'r Saesneg.**

Materion yn codi o'r cofnodion:

4.1 JAR wedi bod mewn cysylltiad â James Bruster, sy'n ymwneud a gwaith adeiladu gan Glwyd Alun, a chadarnhawyd ei bod yn barod i helpu gyda llynau cefn y fynwent.

4.2 Cyngor Sir Ynys Môn wedi cadarnhau ei bod am roi arwyddion gwmpas y pentref ynglŷn â baw ci.

4.3 Taliad o £86.40 i Humphreys Waste wedi cael ei wneud o gyfrif personol JAR. Mi fydd angen i'r Cyngor Cymuned talu'r swm yma yn nôl i JAR.

4.4 Taliad o £1,362 I G. L. Jones wedi ei wneud am dynnu'r swing 'birds nest' yn y parc. Mi fydd y swing yma yn cael ei thrwsio a'i rhoi yn nôl.

4.5 Y Cyngor Cymuned wedi derbyn cwynion am y fynwent ond dim llawer all ei wneud ar y foment yma.

4.6 Llythyr wedi ei yrru i Mr Lee Waters AS ynglŷn â diffyg gwasanaeth bws yn y pentref. Dim ymateb ond cadarnhad bod ei swyddfa wedi derbyn y llythyr.

4.7 Arwel Evans wedi ymateb yn gofyn pa lwybrau cyhoeddus roedd y Cyngor Cymuned yn cyfeirio ato yn ein cyfarfod 25 Medi 2023.

**<u>Gweithred #3</u> - Cynnig edrych ar y prif lwybr yn gyntaf.**

4.8 Gafwyd trafodaeth bellach am gyflwr Hen Siop Bapur.

**<u>Gweithred #4</u> - Gyrru llythyr i adran Iechyd a'r Amgylchedd Cyngor Sir Ynys Môn ynglŷn â'r sefyllfa.**

4.9 Fe gadarnhaodd Alun Roberts ei fod yn disgwyl rheolau newydd gan Lywodraeth Cymru cyn rhoi arwydd cyflymder rhwng Dalar a Bodedern.

## 5. Deddf cynllunio a gwlad

Cais llawn ar gyfer codi sied amaethyddol ar dir gyferbyn â Cymunod. Dim gwrthwynebiad.

## 6. Gohebiaeth

Dim.

## 7. Taliadau

Dim. Yn absenoldeb y clerc Mrs Rhian Richards mae ansicrwydd pa daliadau sydd angen ei wneud.

**<u>Gweithred #5</u> - Y Cadeirydd i ddarganfod pa daliadau sy'n ddyledus ac ystyried sut i sicrhau bod taliadau yn cael ei wneud yn absenoldeb y clerc.**

## 8. Eitemau a ddaeth i sylw'r Cyngor gan y Cynghorwyr

8.1 Sylwadau wedi cael ei wneud gan y cyhoedd am y llanast wrth ymyl Capel Ainon.

**<u>Gweithred #6</u> - Cysylltu â Trystan Owen (Gwarchod y Cyhoedd) a Dewi Francis Jones (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd) o Gyngor Sir Ynys Môn i drafod beth all ei wneud ynglŷn â'r llanast.**

8.2 Mae'r ffens yn y parc yn dal yn fregus ac mae angen mynd i'r afael â hi. Mae'n debygol y bydd angen dwy ffens yn ei lle.

**Gweithred #7 – Cael prisiau ar gyfer ailosod y ffensys.**

8.3 Gorchuddir y palmant ger Stryd yr Eglwys gan fwsogl.

**Gweithred #8 - Cysylltu ag Alun Roberts o Gyngor Sir Ynys Môn.**

8.4 Dafydd Wyn Williams yn dal yn awyddus i fod yn aelod o'r Cyngor Cymuned ond eto i fynychu cyfarfod ers cael ei ethol.

**Gweithred #9 – Cysylltu â Dafydd Wyn Williams i weld a yw'n dal eisiau bod yn aelod. Os na fydd ateb, bydd y Cynghorydd yn cael ei ddiarddel o'r Pwyllgor.**

8.5 Tri golau wrth ymyl Dalar dal ddim yn gweithio.

8.6 Gafwyd trafodaeth am y safle bws gyferbyn a Siop Eirlys.

**Gweithred #10 - Cysylltu â Chyngor Sir Ynys Môn i weld os oes modd ei throi fel bod y cefn at y wal.**

## 9. Unrhyw fater arall

Dim.

## 10. Dyddiad y cyfarfod nesaf

27 Tachwedd 2023 ym Mro'r Ysgol am 7:00pm.